Cipdrem STAN WICKLEN

# Pedwar Canmlwyddiant Argraffu yng Nghymru

YN Y flwyddyn 1558 daeth Protestaniaeth yn grefydd swyddogol yn Lloegr a Chymru. Alltudiwyd ysgolheigion yr hen ffydd sef y Pabyddion i'r Cyfandir. Trodd egni yr ysgolheigion hyn at baratoi llyfrau ar gyfer y maes cenhadol Prydeinig fel y'i galwyd. Argraffwyd llyfrau Cymraeg yn yr Eidal, Gwlad Belg (Louvain) ac yn Ffrainc (St Omer, Paris a Rouen).

Un o'r prif arloeswyr yn yr ymdrech oedd Dr Gruffydd Robert, Cyn-Archddiacon Sir Fôn o dan y Catholigion. Cartrefodd Dr Robert i ddechrau yn Rhufain ond llwyddodd i dan nawddogaeth Cardinal Borromeo, Archesgob Eglwys Gadeiriol Milan. Cyhoeddodd Gruffydd Robert ei Ramadeg Cymraeg enwog yn yr Eidal mewn rhannau o dan y teitl **Dosbarth Byr . . .** Rh I (1567), Rh II (1584) a rhannau III a IV cyn 1594.

Hefyd golygodd Gruffydd Robert waith ei gyfaill Morys Clynnog a ysgrifennodd **Athrawiaeth Gristnogol** (1568) – argraffwyd y llyfrau hyn ac eraill yn Milan.

Owen Lewis, Cymro arall yn yr Eidal a ddaeth yn Esgob Cassano oedd un arall o'r llenorion Cymreig alltud a ysgrifennodd lythyr yn 1578 at Cardinal Sirleto, Llyfrgellydd y Fatican a sylfaenydd Gwasg y Fatican yn gofyn am gymorth ariannol ar gyfer cyhoeddi o leiaf dri o lyfrau Cymraeg o dan olygiaeth y Dr Gruffydd Robert.

* * *

O ACHOS pellter yr Eidal, a phroblemau gyda argraffu Cymraeg trwy law crefftwyr yn Milan ac hefyd oedran yr arloeswyr, gwnaed ymdrech gan yr offeiriaid ifainc Catholig i gael canolfannau agosach at y wlad yma ac yn wir ystyried sefydlu gweisg dirgel yng Nghymru a Lloegr.

Y mae'n debyg mai yng Nghynhadledd Uxbridge 1580 yr awgrymwyd y syniad o weisg dirgel ar dir Prydeinig. Pasiwyd yr egwyddor o sefydlu gweisg dirgel gan y cynrychiolwyr. Un o'r rhain oedd Robert Gwyn, a enwyd gan Geraint Bowen fel awdur y llyfr **Y Drych Cristnogol**; ef a berswadiodd y Puwiaid o Benrhyn Creuddyn i sefydlu gwasg ddirgel o fewn ogof yn Rhiwledyn ar y Gogarth Fach ger Llandudno.

Soniwyd am offeiriad ifanc yn wynebu'r dasg o allforio llyfrau Cymraeg. Rhosier Smyth (1554-1625) oedd hwn – edmygydd o Gruffydd Robert a gymerodd drosodd y gwaith oddi wrth yr hen ysgolhaig. Cafodd Rhosier Smyth ei eni yn Llanelwy yn 1541. Ymunodd â'r Coleg Saesneg yn Douay, Ffrainc a ddaeth yn aelod o'r Brifysgol yno yn 1576.

Erbyn 1579 roedd Rhosier Smyth yn Rhufain yn creu helynt yn y Coleg Saesneg trwy gefnogi cwynion y myfyrwyr Cymreig ac yn eilio Morys Clynnog yn y ddadl yn erbyn y myfyrwyr Saesneg. Daeth yr helynt i sylw'r Pâb a bu raid i'r awdurdodau ddisgyblu y myfyrwyr Cymreig.

* * *

AR ÔL yr helyntion hyn symudodd Rhosier Smyth i Rouen yn Ffrainc. Gwelodd argraffwyr Rouen yn paratoi llyfrau ar gyfer y Pabyddion Saesneg yn Lloegr. Yn ei ragymadrodd i'r **Drych Cristnogol** o dan y pennawd 'Yr Achos a'r Modd dodwyd y llyfr yma mewn print,' dywed Rhosier Smyth " . . . wrth gweled egni y Saeson ffyddlon yn printio llyfrau Saesneg o tu yma i'r mor mewn gwledydd diethr, mi a gan fuom mewn rheswm y gallai Printwyr o Ffrainc brintio Cymraeg yn gystal a Saesneg, gan fod y ddwy iaith yn gyfdiethr iddynt'.

Cafodd hyd i argraffwyr "ar lan y mor" fel y dywed, i brintio llyfrau Cymraeg. Cofiwn fod dinas Rouen yn borthladd pwysig yn yr unfed ganrif ar bymtheg er ei bod tua 80 o filltiroedd i fyny afon Seine.

Y mae'n amlwg felly y dechreuwyd cysodi rhan o'r **Drych Cristnogol** yn Rouen oddeutu 1585 a dyma sy'n cyfrif am yr argraffeb brintiwyd yn Rouen ar y ddalen-deitl a'r dyddiad 1585 sy wedi creu cryn broblem i rai ysgolheigion Cymraeg.

* * *

SEFYDLWYD argraffwasg o fewn un o ogofeydd y Penrhyn rhyw dro ar ôl 1580 gyda Puwiaid (y teulu) fel argraffwyr '*amateur*'. Enwyd rhai o'r argraffwyr hyn mewn llawysgrif o dan yr enw "Mawl Penrhyn" – sef Robert Puw, sgwier Penrhyn, ei fab Phylip, William Davies y Merthyr, Hugh Thomas o'r Gloch, Mary ferch Robert Puw, y Brodyr (offeiriaid) Styphen a William. Ychwanegwyd yn ddiweddarach Roger Thackwell, Sais – yr argraffydd profiadol.

Rhannwyd argraffu Rhiwledyn yn ddau gyfnod felly. Y cyfnod cynnar o 1580 tan 1585 pan gysodwyd mân-bethau fel barddoniaeth a gweddïau fel "Englynion y Pader" o waith yr 'Athro mawr o Fulun' sef Dr Gruffydd Robert. Gofalwyr y wasg bryd yma oedd teulu Robert Puw.

Yr ail gyfnod oedd pan glywodd Rhosier Smyth am wasg Rhiwledyn a gweld cyfle i hyrwyddo yr egwyddor o argraffu ar dir Cymru. Wedi cysodi a phrintio neges Gruffydd Robert at y Cymry sydd o flaen **Y Drych Cristnogol** anfonodd weddill y llawysgrif i Rhiwledyn gyda'r Tad William Davies oedd wedi cael profiad o brintio yn Rheims.

Y mae'n anodd dweud pa ogof yn Rhiwledyn a ddefnyddiwyd fel argraffle **Y Drych Cristnogol.** Meddyliwyd gan Dr Geraint Gruffydd mai ogof a elwir Ty'n y Graig oedd y lle ond cytunwyd yn awr bod yr ogof yma yn rhy fach o lawer i gynnal gwasg-bren o'r maint oedd ar gael yn yr unfed ganrif ar bymtheg gyda nifer o weithwyr, casau o deip, papur ac inc, a moddion eraill at waith printio.

Y mae'n bosib bod Ty'n y Graig a gysylltwyd â William Davies y Merthyr yn rhyw fath o gell i weddïo ynddi, neu i ddarllen proflenni **Y Drych.** Fe ffafriaf i Eglwyswen, ogof fawr wrth gofio disgrifiad o'r ogof o fewn llythyr Dr William Griffith pan ddarganfuwyd y wasg sef *"by the seaside about three fathoms deep"*. Posibilrwydd arall yw Ogo Cythreuliaid. Ai ogof y Pabyddion?

* * *

BU ARGRAFFWYR Rhiwledyn yn brysur yn cysodi a phrintio **Y Drych Cristnogol** am naw mis o Hydref 1586 hyd 14fed Ebrill, 1587. Ar 15 o Fedi 1586 cafodd Iarll Penfro, (Henry Herbert) orchymyn gan Elisabeth I i hela'r Pabyddion yng Nghymru. Rhodd Herbert gyfarwyddyd i Syr Thomas Mostyn i archwilio'r Penrhyn. Ar 14 o Ebrill, 1587 gwelodd bugail (neu un o ysbîwyr Mostyn) ddeuddeg offeiriad yn gweithio ar argraffwasg o fewn ogof; cyfarfu ddau ohonynt efo pistolau a 'doedd ganddynt yn ôl yr hanes ddim parch at weision Mostyn. Dywedodd y bugail am hyn wrth Syr Thomas Mostyn a chasglodd yntau barti o ddeugain o wŷr i amgylchu'r ogof ond ofnodd fynd i mewn. Cadwyd oddi allan trwy'r nos ond pan ddaeth y bore yr oedd y pabyddion wedi diflannu gyda'r argraffwasg.

* * *

YSGRIFENNODD Dr William Griffith, Ynad Caernarfon, lythyr at yr Archesgob Whitgift yn adrodd am y digwyddiadau yn Rhiwledyn ar Ebrill 16, 1587

**. . . the most reverend Father in God my very good Ld. Archbishop of Canterbury, his grace . . . 14th April . . . there is a cave by the sea side about 3 fathoms deepe the haunte of ye recusantes, Seminaries & Jesuites, in these partes . . . Thomas Moston raised people xl or ther aboutes came to the cave mouthe durst not or tooke on his to dare to enter . . . but by the next mornigne all weare suffered to escape . . . Ther was founde the next daye in the Cave Weapons, Victualls & the cave borded & their Alter wainscoted.**

**P.S. ther were found scattered on the shore below a quantity of leaden type and spaces as I take it, to put betwixt the points; the w'ch the foresaide Seminaries and recusantes upo' ther flight did cast into the sea and I have sent some of them unto your grace by the messenger.**

Y mae'r ddogfen hanesyddol yma yn y Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus yn Llundain yn cefnogi bodolaeth argraffwasg Rhiwledyn. Heblaw hyn 'roedd cyfoeswyr y Puwiaid yn gwybod am wasg ddirgel Rhiwledyn, cyfeiriodd John Penry (y Piwritan) o fewn un o'i lyfrau at lyfr '*Written in Welch printed in an obscure cave in North Wales by author unknown*' – ac yn nodi ar ymyl y ddalen 'y Druch Cristnogol'.

* * *

DOGFEN arall yw "Mawl Penrhyn", llawysgrif gan Gwilym Puw yn 1676. 'Roedd Gwilym Puw yn llenor, bardd, meddyg a soldiwr ac yn aelod o'r Benedictiaid. Adrodda hanes teulu'r Penrhyn gan un o ddisgynyddion Robert Puw, sef ei daid. Llawysgrif ddiddorol yn canmol llinach a hanes Puwiaid Penrhyn. Dywed t.145 am Iarll Penfro yn chwilio'r Penrhyn am Robert Puw a chyfeirir at yr ogof lle'r oedd saith cydymaith yn cynnwys Hugh Thomas o'r Gloch a Syr William (Davies) Seren ei Wlad yn gweithio. Ar t.146 ceir

*LLwyth a roi'r or llythrenne*
*Budd yn llawn, bob i'r lle,*
*Ofewn y brunn, heb fawr or braw:*
*Ar gwasc prenn, y gwur sun printiaw,*

I dud 19